# CYNGOR TREF PORTHMADOG

## CYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL

## COFNODION

**1.5.25 Presennol:- Cynghorwyr:-** Aled Griffith ( Cadeirydd); Carol Hayes, Jeremy Davies; Alwyn Gruffydd; Gwilym Jones; Dr Melfyn Edwards; Glenda Murray; Karena Owens; Llywelyn Rhys
Marian Roberts (Clerc); Elfyn Lewis ( Darpar Glerc) ; tri aelod o'r cyhoedd
**Absennol :-** Cyng Trefor Jones
**2.5.25 Ymddiheuriadau:-** Cyng Michael Roberts

**3.5.25 Ethol Cadeirydd y Cyngor am y flwyddyn 2025/2026**
**Penderfynwyd :-** ethol yr Is-Gadeirydd, Cyng Gwilym Jones, yn Gadeirydd yn ôl cynnig Cyng Karena Owens, Cyng Dr Melfyn Edwards yn eilio.
Cymerodd y Cadeirydd newydd y Gadair i lywyddu gweddill y cyfarfod.

**4.5.25 Ethol Is-Gadeirydd y Cyngor am y flwyddyn 2025/2026**
**Penderfynwyd :-** ethol Cyng Dr Melfyn Edwards yn Is-Gadeirydd yn ôl cynnig Cyng Carol Hayes, Cyng Karena Owens yn eilio.

**5.5.25 Ethol aelodau o'r Pwyllgorau canlynol am y flwyddyn 2025/2026**
**Pwyllgor Staffio : Penderfynwyd fel a ganlyn :-**

Cadeirydd y Cyngor – Cyng Gwilym Jones
Is-Gadeirydd y Cyngor – Cyng Dr Melfyn Edwards
Cyng Karena Owens

**6. 5.25 Ethol Cynrychiolwyr ar bwyllgorau allanol : Aelodaeth 2025/2026 :-**

Is Bwyllgor Harbwr Porthmadog - Cyng Jeremy Davies(Cyng Gwilym Jones eisoes yn Gadeirydd Pwyllgor yr Harbwr)
Ymddiriedolaeth Rebecca - Cyng. Gwilym Jones
Y Ganolfan - Cyng Michael Roberts
Amgueddfa Forwrol Porthmadog - Cyng Carol Hayes
Clwb Chwaraeon Madog - Cyng Alwyn Gruffydd
Y Ganolfan Gynghori (Cangen Caernarfon) - Cyng Carol Hayes
Caru Port - Cyng Michael Roberts
Pwyllgor Ardal Arfon Dwyfor (Un Llais Cymru)- Cyng Alwyn Gruffydd
Cyng Gwilym Jones

**Penderfynwyd :-** y Clerc i hysbysu'r pwyllgorau o unrhyw newid i'r cynrychiolwyr ac i'w atgoffa i hysbysu'r Cynghorwyr am ddyddiadau eu cyfarfodydd.

**7.5.25 Dogfennau Rheolaeth – un copi papur ar y bwrdd i'w arwyddo gan y Cadeirydd.**

Angen ystyried derbyn a chymeradwyo'r dogfennau isod yn flynyddol.

1. Rheolau Sefydlog
   **Penderfynwyd :-** derbyn a mabwysiadu yn ôl cynnig Cyng Carol Hayes, Cyng Dr Melfyn Edwards yn eilio.
2. Rheolau Ariannol
   **Penderfynwyd :-** derbyn a mabwysiadu yn ôl cynnig Cyng Carol Hayes, Cyng Aled Griffith yn eilio.
3. Côd Ymddygiad
   **Penderfynwyd :-** derbyn a mabwysiadu yn ôl cynnig Cyng Carol Hayes, Cyng Aled Griffith yn eilio.
4. Archwiliad Mewnol y Cyngor

**Penderfynwyd :-** derbyn a mabwysiadu yn ôl cynnig Cyng Aled Griffith, Cyng Dr Melfyn Edwards yn eilio.

5. Asesiadau Risg
   **Penderfynwyd :-** derbyn a mabwysiadu yn ôl cynnig Cyng Dr Melfyn Edwards, Cyng Aled Griffith yn eilio.

6. Cofrestr Asedau
   **Penderfynwyd :-** derbyn a mabwysiadu yn ôl cynnig Cyng Aled Griffith, Cyng Karena Owens yn eilio.
7. Polisi Cynllunio
   **Penderfynwyd :-** derbyn a mabwysiadu yn ôl cynnig Cyng Alwyn Gruffydd, Cyng Llywelyn Rhys yn eilio.
8. Polisi Di-bapur
   **Penderfynwyd :-** derbyn a mabwysiadu yn ôl cynnig Cyng Llywelyn Rhys, Cyng Aled Griffith yn eilio.
9. Polisi Iaith
   **Penderfynwyd :-** hepgor Polisi Dwyieithog 2024-2025 a mynd yn ôl i dderbyn a mabwysiadu'r Polisi Uniaith Gymraeg blaenorol yn ôl cynnig Cyng Alwyn Gruffydd, Cyng Llywelyn Rhys yn eilio.
10. Polisi Cydraddoldeb
    **Penderfynwyd :-** holi Un Llais Cymru am fwy o arweiniad ar y mater yn ôl cynnig Cyng Carol Hayes, Cyng Dr Melfyn Edwards yn eilio.
11. Cynllun Hyfforddiant
    **Penderfynwyd :-** derbyn a mabwysiadu yn ôl cynnig Cyng Aled Griffith, Cyng Dr Melfyn Edwards yn eilio.
12. Polisi Cyfryngau Cymdeithasol
    **Penderfynwyd :-** derbyn a mabwysiadu yn ôl cynnig Cyng Aled Griffith, Cyng Dr Melfyn Edwards yn eilio.
13. Polisi Amgylcheddol
    **Penderfynwyd :-** derbyn a mabwysiadu yn ôl cynnig Cyng Aled Griffith, Cyng Dr Melfyn Edwards yn eilio.
14. Polisi Iechyd a diogelwch
    **Penderfynwyd :-** derbyn a mabwysiadu yn ôl cynnig Cyng Aled Griffith, Cyng Dr Melfyn Edwards yn eilio.
15. Polisi Datganiadau i'r Wasg
    **Penderfynwyd :-** derbyn a mabwysiadu yn ôl cynnig Cyng Aled Griffith, Cyng Dr Melfyn Edwards yn eilio.

Gadawodd Cyng Aled Griffith y cyfarfod.

## <u>Cyfarfod Rheolaidd y Cyngor Tref Mai 13 2025</u>

## <u>COFNODION</u>

**8.5.25 Presennol:- Cynghorwyr:-** Gwilym Jones ( Cadeirydd); Carol Hayes, Jeremy Davies; Alwyn Gruffydd;; Dr Melfyn Edwards; Glenda Murray; Karena Owens; Llywelyn Rhys
Marian Roberts (Clerc); Elfyn Lewis ( Darpar Glerc) ; tri aelod o'r cyhoedd
**Absennol :** Cyng Trefor Jones
**9.5.25 Ymddiheuriadau:-** Cyng Michael Roberts

**10.5.25 Cadarnhau cywirdeb cofnodion Cyfarfod Llawn Ebrill 8 2025**
Cafwyd yn gywir yn ôl cynnig Cyng Jeremy Davies, Cyng Alwyn Gruffydd yn eilio.
**Cadarnhau cywirdeb cofnodion Cyfarfod Pwyllgor Cyllid ac Eiddo Ebrill 29 2025**
Cytunwyd y dylid cofnodi pwy sydd yn cynnig ac yn eilio pob cynnig a bod angen gwell cysondeb wrth gofnodi hyn. Cafwyd yn gywir yn ôl cynnig Cyng Alwyn Gruffydd, Cyng Jeremy Davies, yn eilio.

**11.5.25 Adroddiad y Clerc**
- Mainc goffa Miss Bullen wrth y stesion wedi cael ei hadnewyddu.
- Bwrdd gwybodaeth Madocks am gael ei osod yn fuan.

Cyfeiriodd y Clerc at ddau gynnig cyntaf Cyng Dr Melfyn Edwards ar y Rhaglen ar 8. Materion i'w dwyn gerbron

1. Gan fod yr union gynnig wedi ei wneud eisoes ganddo ym mis Rhagfyr ni ellir ei gynnig eto tan ar ôl y cyfnod o 6 mis. Bydd y cynnig felly yn cael ei ohirio a'i roi ar raglen cyfarfod mis Mehefin.
2. Mae lleoliad y maes bob tywydd 3G eisoes wedi ei gadarnhau gan y Cyngor Tref mewn cais Cynllunio ym mis Tachwedd 2024.

Ymddiheurodd y Clerc am y dryswch.

- Cais wedi dod i law gan Naomi Jones yn gofyn i ddod i rannu gwybodaeth am fater Plas Tan y Bwlch yng nghyfarfod mis Mehefin. Cytunwyd i'w gwahodd a bydd y Clerc yn cysylltu â hi i gadarnhau.

**12.5.25 Datgan diddordeb.**
**Dim datganiad o ddiddordeb.**

**13.5.25 CEISIADAU CYNLLUNIO**
**(a) Rhif Cais / Application No.: C24/0736/44/LL ( wedi ebostio 29.4.25)**
Lleoliad / Location: Caffi Bwlch Y Moch, Bwlch Y Moch Cafe, Bwlch Y Moch Ffordd Prenteg, Tremadog, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9SN
Bwriad / Proposal:Bwriad ar gyfer ehangu safle gwefru cerbydau trydan presennol yng Nghaffi Bwlch Moch, trwy ychwanegu tri bae gwefru cerbydau trydan cyflym ac offer ategol
Proposal for the expansion of an existing electric vehicle charging site at Bwlch Moch Cafe, with the addition of three rapid electric vehicle charging bays and ancillary Equipment
**Penderfynwyd :- DIM GWRTHWYNEBIAD** yn ôl cynnig Cyng Jeremy Davies, Cyng Llywelyn Rhys yn eilio.

**(b) Rhif Cais / Application No.: C25/0251/44/DT ( wedi ebostio 1.5.25)**
Lleoliad / Location: Talgarreg, 22 Craig Madog, Tremadog, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9TG
Bwriad / Proposal: Estyniad deulawr arfaethedig ar ochr yn annedd a dymchwel lolfa haul bresennol.
Proposed Two storey side extension and removal of existing conservatory.
**Penderfynwyd :- DIM GWRTHWYNEBIAD** yn ôl cynnig Cyng Jeremy Davies,Cyng Alwyn Gruffydd yn eilio.

**© Rhif Cais / Application No.: C25/0306/44/LL ( wedi ebostio 2.5.25)**
Lleoliad / Location: Tafarn Pencei, Pencei Public House, Brig Y Don, 17 - 18 Pen Y Cei, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9AT
Bwriad / Proposal: Gwaith uwchraddio'r ty tafarn drwy codi ffenestr gromen ar y cefn a dau canopi / Refurbishments work to the public house with a dormer window to the rear and 2 canopies
**Penderfynwyd :- DIM GWRTHWYNEBIAD** ond i fynegi pryderon y Cyngor Tref am leoli'r bar ar y llawr cyntaf oherwydd sŵn yn cario yn ôl cynnig Cyng Llywelyn Rhys, Cyng Carol Hayes yn eilio.

**(ch) Rhif Cais / Application No.: C25/0345/44/DT (wedi ebostio 8.5.25)**
Lleoliad / Location: Tremlyn Ffordd Morfa Bychan, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9UT
Bwriad / Proposal: Estyniad orendy ffrâm dderw i ochr yr annedd.
Oak Framed Orangery Extension to Side.
**Penderfynwyd :- DIM GWRTHWYNEBIAD** yn ôl cynnig Cyng Jeremy Davies, Cyng Dr Melfyn Edwards yn eilio.

**<u>MATERION CYFANSODDIADOL A STAFF</u>**

**14.5.25 Penderfynu ar y Lwfans Presenoldeb**
**Penderfynwyd :-** peidio a derbyn y Lwfans Presenoldeb yn ôl cynnig Cyng Llywelyn Rhys, Cyng Karena Owens yn eilio.
**15.5.25 Penderfynu ar y rota tacluso Bryn Coffa**
**Penderfynwyd :-** Cyng Gwilym Jones i gymryd lle Cyng Aled Griffith ym mis Chwefror a Cyng Glenda Murray i wneud mis Ebrill yn ychwanegol. Bydd y Clerc yn atgoffa'r Cynghorwyr bob mis am y drefn.

**<u>MATERION I'W DWYN GERBRON :-</u>**

Cyn dechrau trafod y cynigion isod roedd Cyng Llywelyn Rhys yn dymuno codi mater o drefn :-
fod gan pob Cynghorydd yr hawl i godi unrhyw fater i'w roi ar y Rhaglen os yw, yn eu tyb nhw, yn effeithio ar eu cymuned neu ar eu ward nhw.

**16.5.25 Cyng Dr Melfyn Edwards – cynnig holi'r Adran Cynllunio am ddiweddariad ar gors Borth y Gest**
**Penderfynwyd :-** pasio'r mater i gyfarfod 10.6.25

**17.5.25 Cyng Dr Melfyn Edwards – cynnig holi Cyngor Gwynedd am ddiweddariad ar leoliad y maes chwarae 3G arfaethedig**
**Penderfynwyd :-** dileu'r cynnig**.**

**18.5.25 Cyng Michael Roberts – cynnig holi Cyngor Gwynedd am sefyllfa'r peiriannau casglu arian ym meysydd parcio Borth y Gest a Heol y Parc.**
**Penderfynwyd :-** yn absenoldeb Cyng Michael Roberts **,** pasio'r mater i gyfarfod 10.6.25.

**19.5.25 Cyng Jeremy Davies :- Cynnig cysylltu â thri cwmni dylunio gwefannau i holi am gost creu gwefan ddwyieithog newydd i Gyngor Tref Porthmadog.**
**Penderfynwyd :-** gwrthod y cynnig gan nad oedd eilydd iddo.

**20.5.25 Cyng Jeremy Davies :- Cynnig cysylltu â Phennaeth Adran Forwrol Cyngor Gwynedd, Bryn Pritchard Jones, i holi os oes proses yn bodoli ar ddiwedd cyfnod cytundeb i osod mainc goffa .**
**Penderfynwyd :-** gweithredu ar gynnig Cyng Jeremy Davies,Cyng Llywelyn Rhys yn eilio gan ychwanegu cais iddynt ail-ystyried eu polisi ar feinciau coffa.

**21.5.25 Cyng Carol Hayes :- Cynnig talu i adnewyddu'r hysbysfwrdd cyhoeddus sydd wedi ei fandaleiddio ger yr orsaf drenau.**
**Penderfynwyd :-** gweithredu ar gynnig Cyng Carol Hayes, Cyng Alwyn Gruffydd yn eilio

**22.5.25 Cyng Carol Hayes :- Cynnig penodi unigolyn cyflogedig priodol i drefnu dathliadau Nadolig 2025 o dan gyfarwyddyd Elfyn Lewis, ein clerc.**
**Penderfynwyd :-** gweithredu ar gynnig Cyng Carol Hayes, Cyng Llywelyn Rhys yn eilio.

**23.5.25 Cyng Llywelyn Rhys :- Cynnig cysylltu ag Adran Priffyrdd/ Bwrdeisdrefol Cyngor Gwynedd i ofyn iddynt weithredu i reoli parcio dros nos gan 'camper vans'.( gweler Gohebiaeth 10)**
**Penderfynwyd :-** gweithredu ar gynnig Cyng Llywelyn Rhys, Cyng Alwyn Gruffydd yn eilio.

**24.5.25 Materion i'w dwyn gerbron y Cadeirydd unai er gwybodaeth neu i'w rhoi ar y Rhaglen ar gyfer y cyfarfod nesaf**. *Dyddiad cau Rhaglen Mehefin 10 2025 = Mehefin 1 2025 , ( Rheolau Sefydlog 8.1 " o leiaf deg diwrnod cyn cyfarfod y Cyngor".)*

- **Cyng Dr Melfyn Edwards** – cynnig holi'r Adran Cynllunio am ddiweddariad ar gors Borth y Gest
- **Cyng Michael Roberts –** cynnig holi Cyngor Gwynedd am sefyllfa'r peiriannau casglu arian ym meysydd parcio Borth y Gest a Heol y Parc.

**25.5.25 Gohebiaeth : Rhestr Aros am Ateb (**copi ynghlwm)**.**
**Penderfynwyd :-** y Clerc i geisio unwaith eto i gael ymateb gan Hywyn Williams.

**GOHEBIAETH :**

| | | |
|---|---|---|
| 26.5.25 | SIAN GWENLLIAN A.S. | Diolch am gefnogaeth<br>**Penderfynwyd :-** derbyn y wybodaeth. |
| 27.5.25 | ALED GRIFFITH | Llythyr ymddiswyddo<br>**Penderfynwyd :-** derbyn y wybodaeth ac ysgrifennu llythyr ato yn diolch iddo am ei wasanaeth clodwiw. |
| 28.5.25 | DWYNWEN WILLIAMS | Cronfa gymunedol National Grid<br>**Penderfynwyd :-** derbyn y wybodaeth. |
| 29.5.25 | ARWEL HUGHES | Ymateb i 310.4.25 Ysbyty Alltwen<br>**Penderfynwyd :-** derbyn y wybodaeth. |
| 30.5.25 | MARTIN THOMAS<br>L. BRYN JONES | Rheilffordd Ucheldir Cymru<br>**Penderfynwyd :-** derbyn y wybodaeth a holi Cyngor Gwynedd am amodau gosod y carafannau a hysbysu'r 2 lythyrwr o hyn. |

| | | |
|---|---|---|
| 31.5.25 | CYNGOR GWYNEDD | Cronfa Diwyllesiant<br>**Penderfynwyd :-** derbyn y wybodaeth. |
| 32.5.25 | GETHIN V. JONES C.G.<br>LEWIS ALUN EVANS | Ymateb i 312.4.25 Capel y Garth<br>**Penderfynwyd :-** derbyn y wybodaeth. |
| 33.5.25 | RHIAN WYN WILLIAMS C.G. | Ymateb i 195.12.24 llefydd parcio bysiau<br>**Penderfynwyd :-** derbyn y wybodaeth a'i gwahodd i gyfarfod y Cyngor Tref i drafod y mater ymhellach ac i roi mwy o wybodaeth am lwyddiant cynllun peilot gosod faniau dros nos yn rhai o drefi cyfagos. |
| 34.5.25 | ARWEL LEWIS JONES<br>PHIL WILLIAMS | Ymateb i E3.4.25 Iawndal Cae Bodawen<br>Ymateb i E3.4.25 Iawndal Cae Bodawen<br>**Penderfynwyd :-** derbyn y wybodaeth a derbyn y Pen Telerau yn ôl cynnig Cyng Alwyn Gruffydd, Cyng Jeremy Davies yn eilio. Bydd y Clerc yn hysbysu Arwel Lewis Jones o benderfyniad y Cyngor Tref ac yn ei gyfarwyddo i lofnodi'r ddogfen ar eu rhan. |
| 35.5.25 | ANDREW CAMWELL | Camper vans Pencei<br>Y mater wedi ei drafod eisoes yn 23.5.25. |

**36.5.25 MATERION ARIANNOL :**

- **Derbyn a chymeradwyo Ffurflen Flynyddol 2024-25 ac Adroddiad yr Archwilydd Mewnol 2024-25**
  Eglurodd y Clerc fod y Ffurflen Flynyddol wedi ei chywiro cyn iddi gael ei dychwelyd gan yr Archwilydd Mewnol – yn benodol yn yr adran yn ymwneud â gwariant dan A137 Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r Clerc wedi gwneud y newidiadau perthnasol i'r daenlen Excel ac i'r Llyfr Arian. Bydd ynddynt 3 categori o hyn ymlaen : A19 Recreation; A137 a A145. Dangosodd y Clerc sut yr oedd y Fantolen wedi cael ei chywiro hefyd i gynnwys y newidiadau yma. Maent yn barod rwan i gael eu gyrru i sylw'r Archwilydd Allanol yng Nghaerdydd.

**Penderfynwyd :-** Derbyn a chymeradwyo Ffurflen Flynyddol 2024-25 ac Adroddiad yr Archwilydd Mewnol 2024-25 felly yn ôl cynnig Cyng Alwyn Gruffydd, Cyng Jeremy Davies yn eilio.

**Derbyniadau :**

| | | | |
|---|---|---|---|
| 1 | HMRC | Ad-daliad T.A.W 2024-2025 | £10,449.83 |
| 2 | CAE PAWB | Rhent 2025 arian parod | £ 390.00 |
| 3 | CAE PAWB | Rhent 2025 sieciau | £ 112.50 |
| 4 | HSBC | Llog banc hyd at 19.4.25 | £ 52.85 |
| 5 | CYNGOR GWYNEDD | Taliad 1af Praesept 2025-2026 | £36,829.15 |

Eglurodd y Clerc fel yr oedd wedi dileu taliad 4 oddiar y Rhaglen. Mae'r Lwfans gweithio adref am 2024-25 eisoes wedi ei dalu i'r Clerc presennol ym Mehefin 2024. Bydd y Lwfans ar gyfer 2025-2026 yn cael ei dalu i'r darpar Glerc ym mis Mehefin 2025.

**Awdurdodwyd y taliadau canlynol yn ôl cynnig Cyng Alwyn Gruffydd, Cyng Dr Melfyn Edwards yn eilio:-**

| | | | |
|---|---|---|---|
| 1 | Clerc | Llinell ffôn a Wê Ebrill 2025 | £72.50 |
| 2 | Clerc | Cyflog Clerc Ebrill 2025 | £1,597.44 |
| 3 | H.M.R.C. | Treth Incwm Clerc Ebrill 2025 | £399.36 |
| 5 | UN LLAIS CYMRU | Cwrs Y Cyngor Cyng Jeremy Davies 22.4.25 | £42.00 |
| 6 | Y GANOLFAN | Rhent swyddfa 2025-2026 | £5,200.00 |
| 7 | Cadeirydd | Lwfans Cadeirydd 2025-2026 | £1,200.00 |
| 8 | Cyllid a Thollau ei Fawrhydi | Treth Incwm Lwfans Cadeirydd 2025-2026 | £300.00 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 9 | Geiriau Gwyn | Cyfieithu cyfarfod Harbwr 200 ar 2.4.25 | £144.00 |

( Mae copi o bob siec ar gael i'w archwilio ar gyfer awdit/rheolau ariannol)

Daeth y cyfarfod i ben am 21.15

Marian Roberts
( Clerc )
14.5.25